



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales




Taith tuag at

Gymru Gydnerth

- 1: Bioamrywiaeth a Phridd:** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau gweithredol iach
- 2: Mannau Gwyrdd Naturiol:** Cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol a llesiant cymunedol
- 3: Gwybodaeth o Natur:** Cynyddu ymwybyddiaeth o bwsigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iachach gweithredol naturiol
- 4: Dŵr ac Ansawdd Aer:** Cynorthwyo cydnerthedd ecolegol gan wneud amgylchedd iachach ar gyfer bywyd gwylt a phobl
- 5: Defnyddio Adnoddau Naturiol:** Ymaddasu i amgylchedd sy'n newid lle mae angen defnyddio adnoddau'n effeithlon





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Gydnerth

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cenedl sy’n cynnal a gwella
amgylchedd naturiol bioamrywiol
gydag ecosystemau iach, gweithredol
sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol,
economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu
i addasu i newid”.*



Diffinio'r nod

Yma yng Nghymru, rydyn ni yn awr ymhlith y gwledydd mwyaf diffygiol mewn natur yn y byd, gyda 1 o bob 14 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu.

Mae gan Gymru hefyd beth o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DG, yn dal i allyrru nifer mawr o nwyon tŷ gwydr ac yn awr mewn mwy o berygl o lifogydd, erydiad pridd ac ansawdd dŵr gwaeth. Heb ecosystemau iach gweithredol, ni allwn wrthsefyll, adennill nac addasu i'r newidiadau sy'n wynebu ein planed.

Mae ein hamgylchedd naturiol yma yng Nghymru yn allweddol ar gyfer ein llesiant: mae'n darparu'r aer yr ydym yn ei anadlu, ein bwyd, 951 miliwn litr o ddŵr yfed bob dydd, ein dillad, moddion, deunyddiau fel coed, yn ogystal â manau gwyrdd i'w mwynhau. Fodd bynnag, rydyn ni'n byw ar adeg o newid annhebyg i unrhyw beth a welwyd cyn hyn yng nghyd-destun ein planed. Mae bioamrywiaeth, 'amrywiaeth holl fywyd ar y ddaear' wedi gweld gostyngiad cyffredinol o 60% mewn

rhywogaethau ar draws y byd ers 1970. Nod Cymru gydnerth yw gwyrddo'r dirywiad yn ein hamgylchedd naturiol bioamrywiol, i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o'n heffaith fel unigolion a sefydliadau, sicrhau ein bod yn ecolegol gydnerth gydag ecosystemau iach, ac yn cynorthwyo llesiant cymunedol.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Wildlife Trusts Wales

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn cyflwyno **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)** yn nodi ymagwedd tuag at gynllunio a rheoli adnoddau naturiol i sicrhau bod y manteision a ddarperir ganddynt ar gyfer ein llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gael yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae **polisi Adnoddau Naturiol** yn nodi blaenoriaethiau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol i ni i gyd gyfrannu tuag atynt.

Mae'r blaenoriaethau'n ymwneud â phrif-ffrydio gweithgaredd ar gyfer bioamrywiaeth ar draws ein hardaloedd trefol a gwledig a lleihau'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol. Bydd **datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n** cael eu datblygu erbyn 2020. Byddant yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn lle, a bydd yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Bydd datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n cael eu datblygu erbyn 2020. Byddant yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn lle, a byddant yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Cyflwynodd Adran 6 o dan Rhan I ddyletswydd ecosytemau bioamrywiaeth a chydnerthedd (dyletswydd S6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) wrth iddynt ymarfer eu gweithgareddau mewn perthynas â Chymru. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion yng [Nghannllaw Hanfodion Llywodraeth Cymru](#).

[Mae'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\)](#) yn gosod y sail ar gyfer testiolaeth cenedlaetholar ar gydnerthedd ecosystemau yng Nghymru fel y gallwn ddeall i ba raddau y mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gyflawni. Y blociau adeiladu cydnerthedd ecolegol yn Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd a Hyblygrwydd

Mae **Polisi Cynllunio Cymru'n** gwneud cyfraniad arwyddocaol i welliant llesiant yn ei holl agweddau ac yn sefydlu ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy ein symud tuag at gymdeithas garbon isel, gydnerth ag amgylcheddau â chysylltedd da ar gyfer pawb yng Nghymru. Gall y system gynllunio gyfrannu tuag at wella cydnerthedd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol, gan atal a gwyrddroi colli bioamrywiaeth, cynnal a gwella seilwaith gwyrdd, sicrhau dewisiadau cydnerth ar gyfer seilwaith a'r amgylchedd adeiledig, gan symud tuag at economi mwy cylchol yng Nghymru; a hwyluso datgarboneiddio

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'Ad'

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy tebygol o ddigwydd pan

- **Gweithredu'n ddigon cyflym i ymladd colli bioamrywiaeth.**
- **Digwyddiadau ac ymgyrchoedd yn cynyddu ymwybyddiaeth (e.e. 'Blue Planet 2') a fedr ddwyn y pwnc i'r 'bwrdd gwleidyddol'.**
- **Pan gydnabyddir bod Seilwaith Gwyrdd yn ddull effeithiol y gellir ei gyflwyno i liniaru nifer o heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.**
- **Sefydliadau (yn cynnwys busnes) yn deall ac yn gweithio i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), SMNR, adroddiad SoNaRR, Polisi Adnoddau Naturiol a Pholisi Cynllunio Cymru.**
- **Sefydliadau cymunedol yn cael eu galluogi i sbarduno newid yn eu hardal i sicrhau bod natur yn rhywbeth y gellir ei gyrchu a'i werthfawrogi gan bawb.**



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn llai tebygol o ddigwydd pan

- **Grantiau amgylcheddol yn llai ac yn rhwystrol ac am dymor byr yn unig.**
- **Twf economaidd, yn cynnwys swyddi a busnes, yn cael blaenoriaeth dros yr amgylchedd naturiol, gyda niwed amgylcheddol yn cael ei gyfaddawdu er mwyn twf yn y tymor byr.**
- **Methiant i gynllunio, dylunio a rheoli seilwaith gwyrdd yn digwydd o'r cychwyn cyntaf mewn rhaglenni a phrosiectau.**
- **Ffocws ar wastraff, trafnidiaeth ac ynni, i ffwrdd oddi wrth yr amgylchedd naturiol.**
- **Diffyg gwybodaeth - seilwaith gwyrdd yn cael ei weld fel rôl adran yr amgylchedd.**





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Gydnerth

5. Defnyddio Adnoddau Naturiol

Medru addasu i amgylchedd sy'n newid lle mae angen defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gynaliadwy a chynorthwyo cydnerthedd economaidd

Diffinio'r mater

Disgwylir i boblogaeth y byd gyrraedd 8 biliwn erbyn 2030, gyda 3 biliwn o ddefnyddwyr newydd yn gosod pwysau cynyddol ar ein hadnoddau naturiol. Mae Adroddiad Adnoddau Naturiol yn archwilio a ydym yn defnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae adnoddau naturiol yn lleihau'n barhaus, neu'n cael eu defnyddio'n gynt nag y gellir ei hailgyflenwi. Mae arnom angen system lle mae'r defnydd o wastraff ac adnodd yn lleihau, a phan fydd cynnyrch yn cyrraedd diwedd ei oes, gellir ei ddefnyddio eto i greu

gwerth pellach. Gall systemau cynaliadwy hefyd ddwyn manteision economaidd, gan gyfrannu at arloesedd, twf a chreu swyddi.

Mae Cymru'n wynebu llawer o heriau heddiw, gan sicrhau ynni a chyflenwad tanwydd, creu swyddi ac incwm, taclo tlodi ac anghydraddoldeb, lleihau'r bygythiad i'r newid yn yr hinsawdd a llifogydd, a gwella iechyd a llesiant pobl. Wrth gwrdd â'r heriau hyn mae angen i ni ddeall sut yr ydym yn cynnal, gwella a defnyddio'n hadnoddau naturiol.

Synergies and connections to other journeys



Taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Pwnc 1: Defnydd a chaffael moesegol

Phwnc 4: Ein Rhan Deg o Adnoddau Naturiol



Taith tuag at Gymru fwy llewyrchus

Pwnc 1: Caffael Teg a Lleol

Mae gweithredu sy'n berthnasol i ynni wedi ei gynnwys yn y daith tuag at Gymru fwy llewyrchus



Gwneud Newidiadau Syml

Mabwysiadu polisi plastig untro (i ddileu plastig untro o'ch ystad).

Ee

E.e. **Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n** rhoi'r gorau'n raddol i blastig untro
<http://www.assembly.wales/cy/newhome/Pages/newsitem.aspx?itemid=1868>

Ee

E.e Ffilm **Ysgol Gynradd Glyncollen** – 'Plastic Free'
<https://blog.vocaley.es.org/2018/07/future-generations-news-glyncollen-primary-school-going-plastic-free/>

HOME

Lleihau effeithiau amgylcheddol digwyddiadau e.e. drwy beidio defnyddio balwnau, darparu cyfleusterau ailgylchu, cynyddu ymwybyddiaeth mynychwyr drwy gelf/gweithgareddau diwylliannol.

Ee

E.e. Canllawiau ac Arfer Da ar gyfer Digwyddiadau Cynaliadwy **lechyd Cyhoeddus Cymru.**

Sicrhau bod gennych gyfleusterau ar gyfer ailgylchu ar draws eich sefydliad.

Defnyddio eitemau sydd wedi eu defnyddio/wedi eu hailgylchu drwyddi draw yn eich ystad (dodrefn, deunydd ysgrifennu, eitemau electronig) gan ddefnyddio cyflenwyr mentrau cymdeithasol lleol ble bynnag mae hynny'n bosibl. Gofyn am ddeunydd pacio di-blastig a di-bolystyren

Ee

E.e ailwampio Swyddfa **lechyd Cyhoeddus Cymru**
[http://www.wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/Public%20Health%20Wales%20Sustainable%20Workplace%20\(4\).pdf](http://www.wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/Public%20Health%20Wales%20Sustainable%20Workplace%20(4).pdf)

Ee

E.e. Ailwampio **Cyngor Dinas Abertawe**
http://www.wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/20180305_Swansea_Council_Case_Study_Final_V1.pdf

E.e. Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru'n** ymgymryd â pholisi i leihau plastig untro yn eu cadwyn gyflenwi TGCh.

Gwneud **Newidiadau** Syml

Cefnogi caffis trwsio

cymunedol/mentrau cymunedol diwastraff.

Ee

E.e Gwrandwch ar podlediad
Seismic Wales ar Caffi Trwsio
yng Nghaerdydd

<https://soundcloud.com/seismicwales/ep-01-repair-cafe-cardiff>

Sicrhau bod eich ffreuturau, canolfannau a digwyddiadau'n labelu ffynhonnell bwyd e.e. pysgod cynaliadwy, bwyd lleol, organig, Masnach Deg.

Pan yn cynnal digwyddiadau a chynadleddau – hurio canolfannau lleol a chyflenwyr sy'n caffael bwyd cynaliadwy/ lleol/moesegol nad ydynt yn defnyddio plastig untro.

Cynnwys natur ym Mholisi

Amgylcheddol eich sefydliadau (neu bolisi arall perthnasol).

Gwerthuso ymatebion i

dendro, nid yn unig eu cost a'u hansawdd, ond hefyd yr ymateb i gwestiynau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol; a phwysoli penderfyniadau yn unol â hynny.

Cynyddu mynediad i brif orsafoedd ail-lenwi dŵr (am ddim).

Bod Yn Fwy Anturus

Cwtogi ar holl nwyddau plastig a deunydd pacio a ddefnyddir gennych; os nad oes dewis arall, dewiswch blastig y gellir ei aildefnyddio, ei ailgylchu ynghyd â chynnwys y gellir hefyd ei ailgylchu lle mae hynny'n dechnegol bosib.

Yn yr Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro caniatáu yn unig ddeunydd pacio bwyd lleol y gellir ei gompostio/ei ailgylchu.

Gwahardd gollwng lanternau awyr a balwnau ar eich tir, a thir yr ydych yn gweithio arno tra'n hybu dewisiadau artistig amgen.

E.e. Ymgyrch 'Don't Let Go' **Cymdeithas Cadwriaeth Morol.**

<https://www.mcsuk.org/campaigns/dont-let-go>

Ee

E.e. **Ymgyrch lanternau awyr RSPCA.**

<https://www.rspca.org.uk/getinvolved/campaign/skylanterns>

Cynnal Archwiliad Gwastraff o'ch sefydliad.

Datblygu fforymau i alluogi rhannu dodrefn, stoc a deunydd ysgrifennu rhwng adrannau a sefydliadau, neu roi eitemau nad oes eu hangen i elusennau i osgoi prynu cynnyrch newydd sy'n defnyddio rhagor o ddeunyddiau crai.

Gweithio gyda chyflenwyr lleol a ffermwyr i ddefnyddio bwyd lleol, iach a chynaliadwy sy'n cael ei gludo i adeiladau gwaith.

Ee

Cymryd camau i leihau gwastraff bwyd o ffreuturau, mannau cyfarfod ac adeiladau bwyd. Monitro, adrodd ar, a hybu yr hyn yr ydych yn ei wneud.

E.e. cenhadaeth gwastraff bwyd ysgolion Bwrdeistref Sirol **Pen-y-bont ar Ogwr**

<https://foodrecyclingmission.org.uk/cy/archive-bridgend/teachers-schools/>

Gweithio gydag eraill i ddarparu deunyddiau addysgiadol a chyfleusterau priodol i helpu busnesau, pobl a staff i ddeall yn hawdd sut i aildefnyddio, compostio neu ailgylchu deunyddiau newydd, megis plastig seiliedig ar blanhigion.

Ee

HOME

Bod Yn Fwy Anturus

Darparu Peiriannau Gwerthu cildro i'w defnyddio yn eich adeilad.

Ee

E.e. treial Peiriant Gwerthu Cildro **Cymdeithas Cadwraeth Morol**

https://www.mcsuk.org/press/wales_assembly_DRS

Ee

E.e. Peiriant sy'n talu arian yn ôl am ailgylchu'n cael ei dreialu gan **Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

<https://www.davidmelding.wales/news/conservative-politician-brings-deposit-return-machine-trial-wales>

Prynu pren gradd Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd yn unig, neu bren brodorol oddi wrth goedwigoedd wedi eu rheoli'n dda.

Sicrhau bod ymrwymadau amgylcheddol a chymdeithasol yn cael eu disgrifio'n fanwl mewn contractau a monitro bod y rhain yn cael eu cyflawni.

Gosod gorsafoedd Ail-lenwi Dŵr prif gyflenwad mewn mannau a ddefnyddir yn aml, i wneud dŵr yn fwy gweladwy a hygyrch i'ch staff a chydweithwyr.

Perchnogi Eich Uchelgais

Gweithredu ar y cyd neu'n genedlaethol

Cefnogi arloesedd a masnacheiddio cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd gan fusnesau lleol drwy bwrcasu.

Datblygu mentrau sy'n anelu at ail-ddefnyddio ac ail-brosesu cynnyrch i gefnogi economi cylchol

Ee

E.e. prosiectau **Sied Werdd**
<https://resource.co/article/wales-invests-54m-new-reuse-and-recycling-projects-12970>

HOME

Gweithredu sefydliadol

Mae eich ystâd yn gant y cant ddiblastig, defnydd untro ac yn sefydliad diwastraff.

Sicrhewch eich bod yn dewis defnyddio adnoddau materol sy'n seiliedig ar wneud y defnydd mwyaf priodol a chynaliadwy o adnoddau ac sy'n hybu egwyddorion economi cylchol.

Chwiliwch am farchnadoedd ar gyfer deunyddiau newydd megis pacio gyda deunydd seiliedig ar blanhigion, fel y gellir eu cynnwys mewn casgliadau ailgylchu cartref.

Enghreiffitiau ac adnoddau eraill



Barri Brydferth – plant lleol yn amlinellu'r problemau sbwriel a sut maen nhw'n mynd i'r afael â phlastig untro.
<http://www.beautifulbarry.co.uk/simple-changes-with-the-future-generations-act>



Cyfeillion y Ddaear 'Dydd Gwener Di-blastig'
<https://friendsoftheearth.uk/who-we-are/our-history>



Cytundeb Plastigau WRAP UK
<http://www.wrap.org.uk/content/the-uk-plastics-pact>



Portland, Oregon (USA) – Rhaglen lle mae busnesau a busnesau dielw yn Portland yn medru cwrdd ag ymgynghorwyr cynaliadwyedd a chael cyngor ar sut i wneud y gweithle'n wyrdd. Gall yr ymgynghorydd nodi ardaloedd problematig, helpu gyda chreu rhaglenni cynaliadwyedd sy'n ennyn ymgysylltiad gweithwyr.



Deall deunydd pacio Plastig
<http://www.wrap.org.uk/sites/files/wrap/Understanding%20plastic%20packaging%20FINAL.pdf>



WRAP yn cynorthwyo Caffael yn y Sector Cyhoeddus
<http://www.wrapcymru.org.uk/public-sector>